



SWYDD DDISGRIFIAD

Cydlynnydd Prosiect Ieuenctid CWBR

| | |
|------------------|---|
| Cyflog: | £27,000 (Pro-rata) yn ogystal â phensiwn cyflogwr a chostau teithio |
| Lleoliad: | Swyddfeydd PLANED (yn Arberth ar hyn o bryd) |
| Oriau: | 37.5 awr yr wythnos, gan gynnwys gwaith gyda'r nos a phenwythnosau |
| Cyfnod: | Cyfnod Penodol o 24 mis |

Diben y Swydd:

Yn gyfrifol am reoli Prosiect Ieuenctid CWBR o ddydd i ddydd. Mae'r Prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar weithio gyda'n partneriaid ac yn uniongyrchol gyda phobl ifanc Sir Benfro ar ymgysylltu mwy o bobl ifanc yng nghyffwrdd democratig lleol ledled y sir. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i ymgysylltu pobl ifanc yn gynaliadwy a chadarnhaol o fewn eu cymunedau a'u cyrff democratig lleol, nid yn unig er mwyn bod o fudd i'w datblygiad personol parhaus a'u sgiliau, ond hefyd i gyfrannu at gymunedau sydd wedi'u cysylltu a'u grymuso yn well.

Atebolwydd:

Yn atebol i Brif Swyddog Gweithredol PLANED

Cysylltiadau Allweddol:

Yn fewnol: Prosiectau PLANED yn cynnwys Hybiau Bwyd Cymunedol a DATRIS. Tîm PLANED yn cynnwys Rheolwr Cyllid a Bwrdd PLANED. Yn allanol: Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc, Cyngorau Cymuned a Thref, Un Llais Cymru, Cyngor Sir Penfro, Parcmynd Ifanc Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Fforymau a Chymdeithasau Cymunedol, Cyngorwyr Sir, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Cysylltwyr Cymunedol. Cyllidwyr: Y Loteri Genedlaethol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cyfrifoldebau a dyletswyddau:

Cydlynu a hwyluso Prosiect Ieuenctid CWBR ledled Sir Benfro drwy:

- Gefnogi pobl ifanc i ymgysylltu'n weithredol â'u cymunedau a chyda'r prosesau democratig a fydd yn sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu hystyried wrth lywio gwasanaethau ac adnoddau i gael effaith gadarnhaol ar eu profiadau a'u canlyniadau.
- Sefydlu grŵp llywio y prosiect (dan arweiniad gwirfoddolwyr ifanc)
- Sefydlu a monitro arferion diogelu'r prosiect a'i weithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Cyfathrebu'n effeithiol â chymunedau lleol a sefydliadau partner er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r prosiect.
- Creu a hwyluso gwybodaeth allweddol yn ymwneud â phobl ifanc er mwyn arwain pobl ifanc ac aelodau'r prosiect i ddeall nodau a chanlyniadau'r prosiect.
- Sicrhau arferion gweithio mewn partneriaeth cryf er mwyn datblygu llais cyfunol a chynrychiadol ar gyfer pobl ifanc i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau lleol ac yng ngweithgareddau cymunedol.
- Adnabod cyfleoedd i'r aelodau ddatblygu a dysgu sgiliau newydd drwy eu hamser ynghlwm â'r prosiect.
- Atgyfnerthu rhwydwaith o gysylltiadau gyda sefydliadau allweddol yn y sector gwirfoddol a statudol, yn enwedig Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc.
- Hwyluso digwyddiadau ymgysylltu â chymunedau, gweithgareddau ymgynghori a sesiynau hyfforddi.
- Cydlynu cynnwys ac ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol
- Gweithio â'r Swyddog Cefnogi i ddatblygu a gweithredu rhaglen gadarn ar gyfer cofnodi a monitro canlyniadau a chyflawniadau'r rhaglen, a gwerthuso i fodloni gofynion cyllid.
- Ysgrifennu adroddiadau yn rheolaidd a chyflwyno datblygiadau'r prosiect i bartneriaid allweddol.
- Goruchwylio cyllidebau'r prosiect a chyflwyno hawliadau ac adroddiadau yn ymwneud â chyllid.
- Sicrhau bod holl ohebiaeth a gweithgareddau'r prosiect yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog yn unol â Chynllun Datblygu'r Gymraeg PLANED.
- Darparu rheolaeth llinell a goruchwyliaeth ar gyfer tîm o staff, gan gynnwys Swyddog Cefnogi a gwirfoddolwyr.
- Ymgymryd â phob gweithgarwch ychwanegol rhesymol fel y cytunwyd arnynt gyda'ch rheolwr llinell.

Noder: Rhoddir y swydd ddisgrifiad hwn er mwyn darparu amlinelliad eang o weithgareddau'r swydd. Mae'n bosibl y bydd PLANED yn gofyn i'r deiliad ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o reidrwydd yn cael eu nodi yn y swydd ddisgrifiad, ond sy'n gymesur â graddfa'r swydd. Mae'n bosibl y bydd y swydd ddisgrifiad yn cael ei addasu o bryd i'w gilydd o fewn y cwmpas a'r



lefel cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd.

MANYLEB PERSON

Cydlynnydd Prosiect Ieuenctid CWBR

Diben y Swydd:

Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn swyddfa yn Arberth a bydd disgwyl iddo ef/iddi hi weithio mewn cymunedau amrywiol o fewn Sir Benfro.

1. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio rhai gyda'r nosau ac ar benwythnosau yn achlysurol oherwydd natur y prosiect
2. Bydd angen i ddeiliad y swydd feddu ar drwydded yrru ddilys a bod yn barod i ddefnyddio car ar gyfer gwaith
3. Mae'n bosibl y bydd angen Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ddiabynnol ar weithgareddau'r prosiect

| Sgiliau a Phrofiad | Hanfodol | Dymunol |
|--|----------|---------|
| Cymwysterau | | |
| Wedi cymhwyso i lefel gradd o leiaf, neu brofiad sylweddol o weithio'n llwyddiannus mewn maes tebyg | ✓ | |
| Profiad | | |
| Profiad o ddatblygu a chyflwyno prosiectau, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd/digwyddiadau/ gweithdai a/neu gynadleddau | ✓ | |
| Profiad perthnasol o weithio gyda phobl ifanc neu brosiect yn seiliedig ar bobl ifanc | ✓ | |
| Profiad perthnasol o weithio gyda chymunedau mewn modd cydweithredol gydag ystod o randdeiliaid, fel cynghorau cymuned, cyrff y sector cyhoeddus, grwpiau trydydd sector ac aelodau o'r cyhoedd. | ✓ | |
| Yn gallu gweithio dan bwysau, bodloni targedau a therfynau amser a rheoli llwyth gwaith trwm | ✓ | |
| Yn gallu arddangos ymrwymiad i egwyddorion cyfranogiad cymunedol ac ymgysylltiad hir dymor | | ✓ |
| Profiad o weithio mewn sefydliad trydydd sector | | ✓ |
| Profiad o gyfathrebu a gweithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau statudol | | ✓ |
| Profiad o ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer tîm o staff brwd | ✓ | |
| Profiad o reoli gwirfoddolwyr | | ✓ |
| Gwybodaeth | | |
| Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc ac ym mhob un o'r cymunedau sy'n cymryd rhan yn y prosiect | ✓ | |
| Gwybodaeth ynghylch dulliau ymgysylltu a chyfranogiad | ✓ | |
| Gwybodaeth gyfredol o anghenion pobl ifanc | | ✓ |
| Gwybodaeth o ddulliau creu ar y cyd ac arferion gweithio ar y cyd | | ✓ |
| Gwybodaeth ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | ✓ |
| Yn gallu uniaethu â phobl ifanc, a gwybodaeth ynghylch mecanweithiau cymorth sydd eisoes yn bodoli yn Sir Benfro ar gyfer plant a phobl ifanc | ✓ | |
| Gwybodaeth ynghylch cyfle cyfartal a materion cynhwysiant cymdeithasol | ✓ | |
| Gwybodaeth ynghylch Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru | | ✓ |
| Dealltwriaeth o strwythurau llywodraeth leol ac etholiadau sydd ar y gweill | | ✓ |
| Dealltwriaeth o brosiect Peilot CWBR a gafodd ei ariannu gan LEADER, a'i adnoddau | | ✓ |



| Sgiliau | Hanfodol | Dymunol |
|---|----------|---------|
| Agwedd broffesiynol a sgiliau cyfathrebu a threfnu rhagorol | ✓ | |
| Profiad o ddulliau hwyluso cymunedol a/neu grŵp | ✓ | |
| Sgiliau gweinyddol rhagorol a lefel dda o sgiliau cyfrifiadurol | ✓ | |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau mewn gwahanol fformatau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol | ✓ | |
| Hunan-ddisgybledig, gydag agwedd hyblyg at weithio ar eich liwt eich hun ac yn gallu gweithio fel rhan o dîm | ✓ | |
| Ymrwymiad i werthoedd ac ethos PLANED | ✓ | |
| Y gallu i siarad Cymraeg, neu barodrwydd i ddysgu | | ✓ |
| Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd sy'n addas ar gyfer gwaith | ✓ | |